**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3211 (Cy.304)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 mae'n ofynnol i awdurdodau bilio yng Nghymru dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r rheolau ar gyfer cyfrifo'r symiau hynny wedi'u cynnwys yn Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 ("Rheoliadau 1992").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi lluosydd newydd ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 (Rhagdybiaethau ynglyn â'r Swm Gros), ac Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion).

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3211 (W.304)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2003

### EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Regulations)*

Under Part II of Schedule 8 to the Local Government Finance Act 1988, billing authorities in Wales are required to pay amounts (called non-domestic rating contributions) to the National Assembly for Wales. Rules for the calculation of those amounts are contained in the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992 ("the 1992 Regulations").

These Regulations amend the 1992 Regulations by substituting a new multiplier in paragraph 2(12) of Schedule 2 (Assumptions as to gross amount) and a new Schedule 4 (Adult Population Figures).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2003 Rhif 3211 (Cy.304)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *9 Rhagfyr 2003* |
| *Yn dod i rym* | *31 Rhagfyr 2003* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 140(4) a 143(1) a (2) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**a**) sydd wedi'u breinio bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru (**b**):

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2003 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2003.

(2) Yn y Rheoliadau hyn ystyr "Rheoliadau 1992" yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**c**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2**. O ran y blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2004, diwygir Atodlenni 2 a 4 i Reoliadau 1992 fel a ganlyn:-

(a) ym mharagraff 2(12) o Atodlen 2 yn lle "0.999" rhoddir "0.998"; a

(b) yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhoddir yr Atodlen a nodir yn yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

(a) 1988 p.41.

(b) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).

(c) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy. 220), 2001/3910 (Cy.322) a 2002/3054 (Cy.289).

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2003 No. 3211 (W.304)

# RATING AND VALUATION, WALES

## The Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2003

| | |
|---|---|
| *Made* | *9th December 2003* |
| *Coming into force* | *31st December 2003* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers given to the Secretary of State by sections 140(4) and 143(1) and (2) of, and paragraphs 4 and 6 of Schedule 8 to, the Local Government Finance Act 1988(**a**) which are now vested in the National Assembly for Wales so far as exercisable in Wales(**b**):

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) (Amendment) Regulations 2003 and shall come into force on 31st December 2003.

(2) In these Regulations "the 1992 Regulations" means the Non-Domestic Rating Contributions (Wales) Regulations 1992(**c**).

**Amendment of the 1992 Regulations**

**2**. In relation to financial years beginning on or after 1st April 2004, Schedules 2 and 4 to the 1992 Regulations are amended as follows:-

(a) in paragraph 2(12) of Schedule 2 for "0.999" there is substituted "0.998"; and

(b) for Schedule 4 to the 1992 Regulations there is substituted the Schedule set out in the Schedule to these Regulations.

(a) 1988 c.41.

(b) *See* the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 1992/3238, amended by S.I 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (W.47), 2000/3382 (W.220), 2001/3910 (W.322) and 2002/3054 (W.289).

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

9 Rhagfyr 2003

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

9th December 2003

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

## YR ATODLEN

Rheoliad 2

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

Regulation 6

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,800 |
| Bridgend | 99,400 |
| Caerphilly | 129,200 |
| Carmarthenshire | 137,000 |
| Cardiff | 238,900 |
| Ceredigion | 62,500 |
| Conwy | 87,500 |
| Denbighshire | 73,400 |
| Flintshire | 114,900 |
| Gwynedd | 91,900 |
| Isle of Anglesey | 53,000 |
| Merthyr Tydfil | 42,500 |
| Monmouthshire | 65,700 |
| Neath Port Talbot | 104,900 |
| Newport | 104,400 |
| Pembrokeshire | 88,000 |
| Powys | 99,700 |
| Rhondda Cynon Taf | 177,200 |
| Swansea | 176,100 |
| Torfaen | 69,200 |
| Vale of Glamorgan (The) | 91,200 |
| Wrexham | 100,700 " |

## SCHEDULE

Regulation 2

"SCHEDULE 4

ADULT POPULATION FIGURES

Regulation 6

| *Billing authority area* | *Prescribed figure* |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 52,800 |
| Bridgend | 99,400 |
| Caerphilly | 129,200 |
| Carmarthenshire | 137,000 |
| Cardiff | 238,900 |
| Ceredigion | 62,500 |
| Conwy | 87,500 |
| Denbighshire | 73,400 |
| Flintshire | 114,900 |
| Gwynedd | 91,900 |
| Isle of Anglesey | 53,000 |
| Merthyr Tydfil | 42,500 |
| Monmouthshire | 65,700 |
| Neath Port Talbot | 104,900 |
| Newport | 104,400 |
| Pembrokeshire | 88,000 |
| Powys | 99,700 |
| Rhondda Cynon Taf | 177,200 |
| Swansea | 176,100 |
| Torfaen | 69,200 |
| Vale of Glamorgan (The) | 91,200 |
| Wrexham | 100,700 " |

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2003

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2003

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090836-8

9 780110 908366

**£1.75**

W223/12/03 ON